**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

**Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol**

**Gorffennaf 2014**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

# Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol - Adroddiad: Y Bil Dadreoleiddio: Diwygiadau mewn perthynas â Phedolwyr a Chytundebau Cartref-Ysgol

## Cefndir

1. Ar 10 Mehefin 2014, cyflwynodd y cyn-Weinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol (Memorandwm) atodol ynghylch gwelliannau a gyflwynwyd i'r Bil Dadreoleiddio ("y Bil"), yn unol â Rheol Sefydlog 29.2.

2. Ar 17 Mehefin 2014, cyfeiriodd y Pwyllgor Busnes y Memorandwm at y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol i graffu arno, gan bennu 11 Medi 2014 fel y dyddiad olaf ar gyfer adrodd yn ôl.

## Y Bil Dadreoleiddio

3 Cyflwynwyd y Bil yn Nhŷ'r Cyffredin ar 23 Ionawr 2014 ac mae bellach wedi cwblhau ei daith drwy Dŷ'r Cyffredin. Cafodd ei ail ddarlleniad yn Nhŷ'r Arglwyddi ar 7 Gorffennaf 2014, ar ôl cael ei gario drosodd i sesiwn 2014-15.

4. Mae'r Bil yn cynnig amrywiaeth o fesurau yn unol â nod Llywodraeth y DU o leihau baich ar fusnesau ac awdurdodau cyhoeddus. Mae ei gwmpas yn cynnwys iechyd a diogelwch, cyfraith gyflogaeth, cyfraith cwmnïau ac ansolfedd, defnyddio tir, tai, trafnidiaeth, cyfathrebu, yr amgylchedd, Cronfeydd Ymddiriedolaeth Plant, adloniant, cyfiawnder troseddol a thwf economaidd.

5. Ym mis Gorffennaf 2013, cyhoeddodd Llywodraeth y DU Fil Dadreoleiddio drafft, a oedd yn destun gwaith craffu cyn deddfu, gan Gydbwyllgor dau Dŷ'r Senedd.

6. Gwnaethom drafod Memorandwm i'r Bil Dadreoleiddio ar 31 Mawrth 2014 gan nodi yn ein hadroddiad, a osodwyd gerbron y Cynulliad ar 1 Mai 2014, ein bod yn fodlon arno.

7. Ystyriwyd Memorandwm atodol ar 19 Mai 2014 a gosodwyd ein hadroddiad gerbron y Cynulliad ar 19 Mehefin 2014.

**Y darpariaethau y mae angen cydsyniad y Cynulliad iddynt**

8. Rhoddir manylion am ddarpariaethau newydd y Bil y byddai angen cydsyniad y Cynulliad arnynt ym mharagraffau 5-13 o'r Memorandwm atodol mewn perthynas â Chyngor Cofrestru Pedolwyr a pharagraffau 14-21 mewn perthynas â Threfniadau Cartref-Ysgol.

**Trafodaeth**

9. Trafodwyd y Memorandwm yn ein cyfarfod ar 30 Mehefin 2014.

10. Er bod rhywfaint o wybodaeth wedi cael ei darparu ar y gwelliannau hynny sydd wedi peri llunio'r Memorandwm hwn, byddai wedi bod yn well gennym weld gwybodaeth a fyddai wedi galluogi i ddilyn eu cynnydd yn haws yn nhrafodion Tŷ'r Cyffredin.

11. Mewn perthynas â darpariaethau ynghylch y Cyngor Cofrestru Pedolwyr, nodir eu bod yn ymwneud â chyfansoddiad y corff hwnnw sy'n gyfrifol ar draws Prydain Fawr ac ar y sail honno, mae'r dull yn rhesymol.

12. O ran y darpariaethau sy'n ymwneud â'r trefniadau cartref-ysgol, yr ydym yn ystyried y bu digon o gyfle i ddileu'r trefniadau cartref-ysgol i'w darparu drwy gyfrwng Bil Cymru i graffu arno gan y Cynulliad, yn hytrach nag ymdrin â hyn â deddfwriaeth sy'n codi yn San Steffan.

13. Nodwn bod y Memorandwm yn cynnwys y darn canlynol sy'n ceisio esbonio'r manteision o ddefnyddio Bil y DU yn hytrach na deddfwriaeth y Cynulliad:

> "Ym marn Llywodraeth Cymru, mae'n briodol ymdrin â'r darpariaethau hyn yn y Bil hwn i'r DU gan mai hwn yw'r cyfrwng deddfwriaethol mwyaf ymarferol a chymesur er mwyn galluogi i'r darpariaethau hyn fod yn gymwys mewn perthynas â Chymru. Mae'r diwygiadau arfaethedig yn rhai technegol ac anghynnenus. At hynny, mae natur gydgysylltiedig systemau gweinyddol perthnasol Cymru a Lloegr yn golygu mai'r peth mwyaf effeithiol a phriodol yw bod darpariaethau'r

Bil ar gyfer y ddwy wlad yn cael eu datblygu ar yr un pryd yn yr un offeryn deddfwriaethol."[1]

14. Rydym ni wedi ein hargyhoeddi gan y farn hon mewn perthynas â'r darpariaethau yn ymwneud â threfniadau cartref-ysgol ac rydym yn siomedig â'r dull y mae Llywodraeth Cymru wedi'i gymryd.

15. Rydym yn credu y dylai'r newid hwn mewn polisi fod wedi'i gynnwys o fewn Bil Llywodraeth Cymru a bod yn destun craffu gan y Cynulliad Cenedlaethol.

---

[1] Paragraff 22